Manylion y Swydd:
Arbenigedd: Llwybr Academaidd Clinigol Cymru (WCAT)
Hyfforddiant: Hyfforddiant Arbenigol
Nifer dangosol y swyddi gwag: 0–3

Lleoliad y Swydd(i)/Cyflogwyr:
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Abertawe

Grŵp Staff: Meddygol
Math o Swydd: Hyfforddiant Arbenigol
Graddfa Gyflog: Graddfeydd Cyflog ac Amodau'r Brifysgol

Cymwysterau a chofrestriad proffesiynol gofynnol:

Mae'r gofynion o ran cymwysterau a chofrestriad proffesiynol, ynghyd â meini prawf cymhwystra eraill, i'w gweld yn y fanyleb person. Mae'r fanyleb person ar gyfer yr arbenigedd hwn ar gael ar wefan Hyfforddiant Arbenigol, y gellir ei chyrchu drwy Oriel.

Dyddiad Cychwyn: Dydd Mercher 4 Awst 2027

Hyd Disgwyliedig y Rhaglen: Yn dibynnu ar y lefel mynediad, ac yn amodol ar ARCPau boddhaol

Gwybodaeth am y rhaglen:

Mae cymrodoriaethau WCAT yn llwybr cyffrous o hyfforddiant academaidd, mewn swyddi cymrodoriaeth glinigol sy'n rhedeg drwodd ym maes Meddygaeth a Deintyddiaeth Academaidd. Maent yn gydweithrediad rhwng AaGIC/Deoniaeth Cymru a'r prif brifysgolion yng Nghymru (Bangor, Caerdydd ac Abertawe), mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru ac yn derbyn cyllid wedi'i glustnodi ganddi.

Mae'r rhaglen yn cynnwys Cymrodoriaeth Hyfforddiant PhD tair blynedd â chyflog wedi'i ariannu (OOP), gydag amser academaidd wedi'i ddiogelu yn eu lleoliadau clinigol dilynol (80% hyfforddiant clinigol ac 20% hyfforddiant academaidd) drwy gydol y rhaglen hyfforddi. Cyflogir preswylwyr WCAT gan y Brifysgol lle mae eu hymchwil academaidd wedi'i leoli, ac mae ganddynt gontract anrhydeddus gyda'r Byrddau Iechyd ledled Cymru ar gyfer lleoliadau clinigol.

Pan fydd preswylwyr yn cyflwyno cais ar gyfer Rhaglen WCAT, disgwylir iddynt fod wedi nodi maes ymchwil ar gyfer PhD ac wedi cysylltu â'r Brifysgol berthnasol. Byddant hefyd wedi trafod y cais â TPD yr arbenigedd o'u dewis cyn cyflwyno'r cais. Manylion Cyswllt Rhaglenni Hyfforddiant Arbenigol – AaGIC

Mae cymrodoriaethau WCAT yn swyddi sy'n rhedeg drwodd. Byddai preswylydd sy'n ymuno â'r rhaglen ar lefel CT1/ST1 yn cael sicrwydd o barhau â'i hyfforddiant hyd at CCT yn yr arbenigedd o'i ddewis, yn amodol ar gynnydd boddhaol drwy'r hyfforddiant academaidd a chlinigol. Byddai angen i breswylwyr sy'n gwneud cais o Hyfforddiant Craidd hefyd ddangos, drwy ddethol cenedlaethol, eu bod yn gymwys i'w penodi i'r arbenigedd uwch o'u dewis.

Meini Prawf Cymhwystra ar gyfer recriwtio i Hyfforddiant Arbenigol 2027 – Gofynion Mewnfudo:

I benderfynu a ydych yn gymwys i wneud cais am hyfforddiant WCAT yn y rownd recriwtio bresennol, cyfeiriwch at yr adran Hawl i Weithio sydd ar gael yn https://specialtytraining.hee.nhs.uk/Recruitment/Application-guidance

Sut i Wneud Cais:

- Gwahoddir ceisiadau ar gyfer rhaglen hyfforddi WCAT ar lefel CT1/ST1, neu'n uwch, gan ddechrau ar 4 Awst 2027
    - Rhaid i ddarpar breswylwyr drafod eu cynlluniau gyrfa â Chyfarwyddwyr Rhaglenni Hyfforddiant Arbenigol neu Gynghorwyr Arbenigol ymlaen llaw. Mae manylion cyswllt ar gael ar wefan AaGIC.
    - Anogir ymgeiswyr i archwilio meysydd posibl ar gyfer ffocws ymchwil gyda darpar Oruchwylwyr Academaidd/Addysgol cyn gwneud cais, er mwyn penderfynu a all y brifysgol a ffefrir ddarparu ar gyfer y prosiect ymchwil posibl.
    - Nid yw ymgeiswyr sydd ar hyn o bryd 12 mis i ffwrdd o'u dyddiad CCT yn gymwys ar gyfer rhaglen WCAT.

Cyfnod ymgeisio: 10am dydd Iau 22 Hydref 2025 tan 4pm dydd Iau 19 Tachwedd 2025

Cyfweliadau: 27 Ionawr 2026

Ni dderbynnir ceisiadau a gyflwynir y tu allan i'r cyfnod ymgeisio.

Cynhelir y cyfweliadau ar-lein, gyda TPD ac Arweinwyr WCAT.

Sicrhewch eich bod wedi cwblhau pob adran berthnasol o'r ffurflenni cais, gan y bydd gwybodaeth sydd ar goll yn golygu bod eich cais yn anghyflawn ac ni chaiff ei ystyried.

Rhaid i chi wneud cais drwy'r system recriwtio ar-lein, Oriel.

I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant WCAT, ewch i Llwybr Academaidd Clinigol Cymru (WCAT) – AaGIC (gig.cymru)

Manylion Cyswllt: AaGIC – HEIW.WCAT@wales.nhs.uk